

[www.cyngorllanelltyd.cymru](http://www.cyngorllanelltyd.cymru)

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu gynhaliwyd yn  
Neuadd Bentref Llanelltyd  
Nos Fawrth, Ebrill 11, 2023 am 7.30 o'r gloch.**

**Preseanol:** Cynghorwyr: Simon Evans (Cadeirydd), Llinos Rowlands, Geraint Rowlands, Gwenan Owen ac Elfed ap Gomer.. Hefyd Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

**1.** Roedd Mr Paul Williams, swyddog gyda Gwasanaeth Tân, yn bresennol yn rhoi gwybodaeth am roi diffibriliwr yn Bontddu. Gweler Cofnodion Mawrth 14, 2023 Eitem 10.b. ac Eitem 4. isod.

Cafwyd wybod gan Mr Williams lle'r oedd diffibriliwriau wedi cael eu gosod yn yr ardal. Eglurodd sut maent yn gweithio a hyfforddiant sydd ar gael i'w defnyddio.

Wedi'r cyfarfod gyda Mr Williams, penderfynwyd rhoi rhodd o £300 i Neuadd Bentref Bontddu fel cyfraniad iddynt gael diffibriliwr i'r Neuadd.

**2. Ymddiheuriadau:** Llinos Williams, Eleri Jones a Gareth Ellis.

**3. Datgan diddordeb:**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mawrth 14, 2023**

Cynigwyd y cofnodion gan Geraint Rowlands ac eilwyd gan Llinos Rowlands.

**5. Materion yn codi o'r cyfarfod Mawrth 14, 2023**

Eitem 11. dd. Cafwyd gwybod (15/3/2023) gan Delyth :

Mae Andrew Gregson (peiriannydd) wedi cysylltu i ddweud na fydd lleoliad 40mya yn newid o dan y drefn newydd.

O ran arwydd 20mya arall cyn dod at yr ysgol – nid yw'n medru dweud os fydd un arall eto (nid yw anfoneb yr arwyddion wedi dod ato eto).

Eitem 10.b. Sylwi'r bod diffibriliwr ar bolyn golau stryd yn Bro Cymmer, Llanelltyd. Cafwyd wybod mai Mr Paul Williams osododd y teclyn ar y polyn. Cafwyd wybod yn ein cyfarfod bod diffibriliwr yn Neuadd Llanelltyd.

Mae ein hymholiad â Un Llais Cymru am wybodaeth ar diffibriliwr wedi ei anfon ymlaen (16/3/2023) i Prifysgol Metropolitan Caerdydd sy'n delio â diffibriliwr ar ran Un Llais Cymru. Oherwydd hyn awgrymodd y Clerc (29/3/2023) i ganslo y cyfarfod â Mr Williams ac i Delyth rhoi y mater i Cyngor Gwynedd. Cafwyd ymateb gan Geraint (29/3/2023) yn rhoi gwybod i ni gael y cyfarfod â Mr Williams i gael gwybod ganddo beth sy'n digwydd yn yr ardal gyda diffibriliwriau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION EBRILL 11, 2023

Eitem 9.ch. Llythyr (5/4/2023) oddi wrth Priffyrdd, Peirianeg a YGC, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod y linc i gynghorau cymuned / tref yw Adrodd problem (llyw.cymru) neu ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost [tacluso@gwynedd.llyw.cymru](mailto:tacluso@gwynedd.llyw.cymru). ac nid [Tîmau Tacluso 'Ardal Ni' Tidying Teams \(sharepoint.com\)](https://www.sharepoint.com) sydd i gynghorwyr Gwynedd.

Eitem 5.e. Penderfynodd yr aelodau nid oeddynt am dderbyn taliadau.

## **6. Materion Ariannol**

c. Llythyr (13/3/2023) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn cynnwys:

i. Copi o P60 am y flwyddyn yn diweddu 5/4/2023.

ii. Bil am £216.00 am gwblhau PAYE am y flwyddyn yn gorffen 5/4/2023 ac am roi gwybodaeth gyflog fisol i HMRC ar-lein i gydymffurfio â RTI a pharatoi tystysgrif P60 am ddiwedd y flwyddyn.

Penderfynwyd talu'r bil.

ch. Balans yn y banc ar 29/3/2023: £8,401.74. (29/3/2022: £8,922.43).

## **7. Archwilio**

a. Llythyr (29/3/2023) oddi wrth Archwilio Cymru gyda Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2022 – 2023.

b. Anfonwyd (30/3/2023) llythyr i Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd yn gofyn iddynt archwilio'r dogfennau'r Cyngor ar gyfer 2022 - 2023.

## **8. Mynwent Llanelltyd**

a. Llythyr (27/3/2023) oddi wrth Desg Gymorth Gwastraff Masnachol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd y pris wythnosol am wasanaeth gwastraff tirlenwi am y cyfnod 1/4/2023 – 31/3/2024 yn £412.

Penderfynwyd derbyn y gwasanaeth.

## **9. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Llythyr (3/4/2023) oddi wrth y Parc yn amgau dogfen 'Adroddiad Adolygu Drafft Cynllun Datblygu Lleol Eryri'. Os mae barn ar yr Adroddiad maent ei angen cyn Mai 5, 2023 a trwy'r linc <https://www.eryri.llyw.cymru/ffurflen-adolygu-cdll>

Ni anfonwyd y ddogfen i'r aelodau oherwydd ei maint ond rhoddwyd gwybod iddynt am y ddogfen.

Derbyniwyd (6/4/2023) y ddogfen trwy e-bost ac fe anfonwyd i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION EBRILL 11, 2023

b. Cais Cynllunio. NP5/65/36B. Cais ôl-weithredol i gadw estyniad i gwrtil preswyl ynghyd ac adeiladu sied gardd bren. Capel Soar, Tai Cynhaeaf.

Penderfynwyd rhoi gwybodd iddynt nid oes sylw i'r cais.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Parc ein sylwadau anffafriol ar geisiadau ôl-weithredol. Anfonwyd y llythyr anfonwyd i'r Parc i'r aelodau.

## **10. Gohebiaeth**

a. Llythyr (13/3/2023) oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru (a llythyr (15/3/2023) oddi wrth Un Llais Cymru) yn rhoi gwybod maent yn datblygu Cynllun Coedwig newydd ar gyfer ardal Mawddach ac Wnion. Maent angen gwybodaeth ar faterion a allai effeithio ar y cynllun a rheolaeth fydd ei angen ar y goedwigaeth. Mae'r drafft ar [CAC Mawddach ac Wnion](#). Gyda chyfraniadau derbynir bydd y drafft yn cael ei ddiweddarau fel bo angen. Amcanion y drafft yw materion sy'n ymwneud ag Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylchedd. Bydd y cynllun yn amodol ar Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Asesiad Effaith Amgylcheddol, Os mae sylwadau mae angen eu hanfon i [NorthWestPeoplePlacesTeam@cyfoethnaturioleymru.gov.uk](mailto:NorthWestPeoplePlacesTeam@cyfoethnaturioleymru.gov.uk) cyn Ebrill 14. Amgáu mae map yn dangos ardaloedd dan sylw.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru i gael gwared o'r coed sy'n tyfu yn Maes-y-garnedd, Llanelltyd oherwydd maent yn beryglus i'r cyhoedd ac mae barn yn yr ardal sydd ddim angen ail blanu coed yn y lleoliad.

b. Llythyr (15/3/2023) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod:

1. Mae'r gwaith o atgyweirio'r ffens sydd ar ochr ffordd A496 ar gyfer Ysgol Llanelltyd wedi cael ei gychwyn. Rydym yn monitro cyflwr y ffens wrth Capel Borth a byddwn yn trefnu gwaith yn y dyfodol. Gwelwyd nad oedd angen ffens wrth Fiddler's Elbow felly bydd trefniadau yn cael eu gwneud i'w thynnu oddi yna fel mae hi yn dirywio.

2. Ysgubo'r ffordd a chlirio'r cwterydd ar ffordd Cwm Mynach, Taicynhaeaf. Mae y gweithlu wedi bod yn y lleoliad yma ddoe ac mae gwaith ychwanegol wedi ei drefnu yma hefyd.

Materion codwyd yn cyfarfod Chwefror 14, 2023, eitem 11. c., d.

c. Llythyr (22/3/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am hyfforddiant bydd ym mis Mawrth a mis Ebrill, 2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION EBRILL 11, 2023

ch. Llythyr (29/3/2023) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am eu rhaglen waith ym mis Ebrill 2023: Bydd Tim Tacluso Ardal Ni yn gwneud gwaith yn Llanelltyd.

d. Llythyr (29/3/2023) oddi wrth Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd terfyn cyflymder o 20mya yn cael ei gyflawni ar gyfer ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru o 17 Medi 2023. Os mae sylw mae angen ei gyflwyno iddynt cyn 28 Ebrill 2023. Rhoddi'r sylw ar linc [www.gwynedd.llyw.cymru/20mya](http://www.gwynedd.llyw.cymru/20mya)\* Mae'r linc yn cynnwys map yn rhoi y cynigion y cyflymder.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Adran:

1. mae angen gosod yr arwydd 20 cyn y gyffordd wrth y maes parcio newydd.

2. sydd ddim angen arwyddion 20 yn Bontddu.

Penderfynwyd hefyd i'r aelodau anfon eu sylwadau ar y cynllun.

dd. Llythyr 30/3/2023) oddi wrth Gwasanaeth Cefn Gwlad a Mynediad, Cyngor Gwynedd gyda chynllun i newid llwybr rhif 71 o ddilyn llwybr lliw glas i ddilyn llwybr lliw coch fel dangosir ar y map. Mae'r llwybr yn Bontddu. Bydd y newid yn gwneud hi'n haws i gerddwyr ddilyn y llwybr. Os mae sylwadau maent eu hangen cyn 1/4/2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd cefnogi'r cynllun.

## **11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

a. Gofynnodd Elfed i Delyth (24/3/2023) am goed ynn peryglus yn Cwm Mynach:-

Dylai cofnodion y Cyngor Cymuned ddangos mod i wedi gofyn i'r Cyngor Sir wneud arolwg o gyflwr y coed a faint mor beryglus ydyn nhw beth amser yn ôl. Mae cangen un, er enghraifft, yn gorffwys ar y wifren BT a gallai ddisgyn ar bobl/cerbydau islaw ar unrhyw adeg. Mae onnen arall wedi'i marcio (gan y Cyngor?) ond dim mwy na hynny, eto mae'n dadfeilio'n barhaus.

Llythyr (5/4/2023) oddi wrth Adrian i Delyth. Hoffwn eich hysbysu fod eich sylwadau wedi ei anfon at y Tim Onnen gyda cais eu bod yn asesu'r coed ar y ffordd hon. O ganlyniad ei asesiad diwedd wythnos diwethaf, mae tair coeden wedi ei adnabod angen sylw brys. O ganlyniad, mae'r Tim Onnen yn paratoi i dorri'r coed yno a thybïaf fydd y gwaith cael ei rhaglennu o fewn y pythefnos nesaf.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION EBRILL 11, 2023

b. Coed Maes-y-garnedd Llanelltyd.

Ymateb Delyth i Mr Bruce Lawson (11/4/2023):

Graham Jones on the forestry side has proposed to the Operations side( the people who cut the trees on a large scale) of Natural Resources Wales that they schedule the cutting of the trees ( all the trees) in 2023-26.

This is a proposal only at this stage .

Graham will inform me when/ if the proposal is accepted.

They have plans in 2023- 26 to cut down trees at the back of Bro Cymer estate which were already in the schedule – so Graham has suggested to the Operations people that they will use less resources if they cut both parts of the woodland at the same time.

The current work has been done by Gwion Jones the estate manager who felt that the area near Stuart’s home was unsafe in some areas.

I am due to meet him on site this week.

That is the situation currently.

Yes it is good news and Graham Jones was confident that his proposal would be accepted.

c. Ymateb Dylan (5/4/2023) i ymholiad Delyth ynglŷn â Pont Cwm Mynach:

Mae yna hen ddifrod i ganllaw y bont yma sy’n debyg iawn i’r llun, lle mae wedi ei tharo yn y gorffennol ac sydd angen ei drwsio ac sydd ar ein rhaglen.

Mi drefnwn i gael golwg ar y bont rhag ofn fod yna fwy o ddifrod wedi digwydd..

Yn y cyfamser o’r lluniau ni allaf weld fod unrhyw beth wedi newid ac mae’r bont yn dal yn ddiogel i’w defnyddio.

## **12. Materion Brys**

a. Mae angen trwsio’r faine sydd wrth hen bont Wnin, Llanelltyd.

b. Garth-gell ynteu Hafod Mawddach yw enw cywir? Nid yw Elfed wedi cael gafael ar Martin Evans i’w holi eto. Mae Elfed wedi cael ateb gan Cyngor Gwynedd ond nid yw’n boddhaol iawn. Y cwmni sy’n ei hysbysebu sy’n defnyddio’r enw ‘newydd’- dydy’r enw ddim wedi newid – ond y peryg ydy y gallai’r OS weld yr enw newydd a dechrau defnyddio hwnnw ar eu mapiau.

c. Y groes ar ‘Capel’ Soar. Anaddas? Mae’r Parc wedi cael gwybod o’r mater.

Anfonodd Elfed lythyr (4/4/2023) i’r Parc yn rhoi gwybod iddynt ni chafwyd ateb i’r mater na chydabyddiaeth o dderbyn y neges. Holodd y Parc beth yw eu trefn wrth ddelio ag ymoliadau gan y cyhoedd.

Cafwyd ateb gan y Parc (5/4/2023) yn rhoi gwybod nid oes unrhyw oblygiadau Cynllunio gan nad yw gosod croes ar adeilad yn ddatblygiad.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION EBRILL 11, 2023

ch. Cafwyd gwybod (16/3/2023) bod pedwar polyn wedi cael eu gosod ar y ffordd i rwystro cerbydau, yn enwedig campervans, mynd at hen bont Llanelltyd.

d. Rhoddwyd gwybod i Arweinydd Tim Mynediad, Cyngor Gwynedd mae angen trwsio polyn gat sy'n arwain at bont droed sy'n croesi Afon Wnain, Llanelltyd.

dd. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd:

1. mae hwyneb y ffordd o Pont Garth-gell a heibio Ty'n y Coed wedi dirywio ac angen sylw. Mae tyllau yn y ffordd ac mae ei hochr yn dirywio.

2. mae angen ysgubo'r ffordd a chlirio'r cwterydd ar ffordd Cwm Hirgwm, Bontddu.

-----